

Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr

Nod

Ein nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n sicrhau y caiff myfyrwyr anabl eu cynnwys yn llawn yn y gymuned academiaidd a chymdeithasol, gan feithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth. Gan weithredu o fewn model cymdeithasol anabledd, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sefydliad i symud rhwystrau a hyrwyddo cydraddoldeb drwy sefydlu cynhwysedd mewn gweithredu bob dydd.

Amcanion

- Cynnig cefnogaeth ac arweiniad personol ac academiaidd i ddarparu fyfyrwyr a myfyrwyr presennol, adnabod strategaethau priodol i gael gwared ar rwystrau a hwyluso astudio a thasgau bob dydd;
- gweithio gyda myfyrwyr i ddatblygu eu gwytnwch emosiynol a'u hunanddibyniaeth, a helpu myfyrwyr i reoli effaith prifysgol ar eu hamhariad/cyflwr iechyd. Helpu myfyrwyr, lle bo'r angen, i fod yn realistig ynghylch eu lles a'u potensial academiaidd, gan gymryd i ystyriaeth ddyletswydd y brifysgol i ofalu amdanynt;
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd i bartneriaid i gyflawni anghenion myfyrwyr unigol a rhoi cefnogaeth briodol iddynt;
- cysylltu â staff er mwyn addasu dulliau gweithredu i sicrhau y ceir dysgu hygyrch / darparu cyfleusterau hygyrch;
- trefnu a chynnal datblygiad a hyfforddiant staff i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a darpariaeth gynhwysol;
- cynnal sgiliau proffesiynol staff i'w galluogi i ddiwallu'r gofynion o ran y gwasanaeth a'r ddarpariaeth;
- darparu gwasanaeth ymgynghorol i'r brifysgol ar faterion yn ymwneud ag anabledd, cyfrannu at waith pwyllgorau perthnasol yn y brifysgol a goleuo dogfennau polisi;
- datblygu ein darpariaeth mewn partneriaeth â myfyrwyr a staff trwy drafodaeth sy'n ein galluogi i addasu'n barhaus a gwella ein gwasanaeth.